

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 159

Rhif 5

Ionawr 29, 2026

50c.

Oedfa gymun undebol Peniel a Bwlchycorn

Cafwyd oedfa hyfryd fore Sul, 11 Ionawr ym Mheniel ar y thema 'perthyn drwy'r cariad sydd yn ein clymu yn un teulu' gan ystyried sut mae cariad Duw yn Iesu o Nasareth yn ein clymu yn un teulu mawr yn ei Eglwys. A hynny, nid yn unig yma ym Mheniel, ond hefyd ein clymu i berthyn i blant, pobol ifanc ac oedolion ei Eglwys fyd-eang. Rydym yn byw mewn oes o fateroliaeth a'r consyrn am hunan yn disodli cariad. Mae mudiadau fel Cymorth Cristnogol ac Amnest Rhyngwladol yn ein sobri i gofio am angen eraill. Roedd un o'n haelodau, sef Rhodri Phillips, Rhydfwyalchen, Peniel wedi creu canhwylbren o weiren bigog, symbol Amnest Rhyngwladol, y weiren sy'n caethiwo carcharorion cydwybod ar draws y byd. Yr union weiren bigog sydd hefyd yn diogelu'r goleuni yng nghanol y tywyllwch. Cafodd y gannwyll ei chynnu yn ystod y gwasanaeth i'n hatgoffa o'r Goleuni sy'n adlewyrchu tosturi, caredigrwydd, gostyngeddwrwydd,



adffwynder, amynedd a chariad yn ein dyddiau ni.

Diolch i Catrin, Lisa, Sara, Helen, ac Arwel am arwain yr addoliad mewn myfyrdod, gweddi, darlenniadau o'r ysgrythur a cherdd Waldo i'r Preseli ar y thema o berthyn; i Mair, un o'n haelodau ifanc am rannu ei phrofiad o fynychu'r ysgol Sul ac i ddwy o'r plant am gyflwyno'r emyn olaf sef Alis a Marged. Gweinyddwyd sacrament y cymun gan Catryn a Carys, dwy o'n Diaconiaid..

Derbyniwyd Sara a Dafydd sydd wedi ymgartrefu yn y pentref yn aelodau o'r capel, Sara wedi'i magu yn eglwys Silian ger Llanbed, a Dafydd yng nghapel Saron, Llangeler.

Diolchwn ein bod yn byw mewn cymuned mor gyfeillgar a'r ymdeimlad ein bod yn 'blongo'!!

Lisa Glyn



Rhodd Neuaddlwyd i Fadagascar

Yn ddiweddar, cawsom y fraint o groesawu'r Parchg Dr Zaka Andriamampianina, llywydd etholedig yr FJKM (Eglwys Iesu Grist ym Madagascar), fy mam eglwys, sydd â thua phum miliwn o aelodau. Treuliodd y Parchg Zaka ychydig ddyddiau gyda ni yng Nghymru cyn teithio ymlaen i Lundain ar gyfer Cynhadledd Ysgrifenyddion Cyffredinol Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang.

Yn ystod ei gyfnod yma, aethom â'r Parchg Zaka i gapel Neuaddlwyd, yr achos sydd â rhan annatod yn stori Cymru a Madagascar. O'r cwmwd tawel hwn o Sir Aberteifi y cychwynnodd David Jones a Thomas Bevan ym 1818 fel y cenhadon cyntaf i Fadagascar. Ymwelsom hefyd â chartref y Parchg Thomas Phillips ac adfeilion yr academi lle gwasanaethodd fel prifathro. Er mai dim ond dwy ystafell

fechan oedd yn yr academi, hyfforddwyd mwy na 200 o weinidogion yno o dan ei arweiniad. Roedd Thomas Philips hefyd yn weinidog ar gynulleidfa yng nghapel Neuaddlwyd.



Breuddwyd

Mae un stori gychwynnodd ym 1816 wedi ei serio ar gof Cristnogion Malagasy. Roedd y Parchg Thomas Phillips yn darllen papur newydd pan ddaeth ar draws adroddiadau pryderus o Fadagascar, ynys wedi'i dal mewn tywyllwch ysbrydol ac yn dioddef o ganlyniad i'r fasnach mewn caethweision. Yr un diwrnod, bu'n astudio Actau 16, lle cafodd Paul weledigaeth yn ei alw i Facedonia. Y noson honno, breuddwydiodd Phillips am ddyn yn sefyll ar ynys fach, yn erfyn, 'Dewch draw atom i'n helpu!' Ysgwydodd y freuddwyd ef yn ddwfn. Credai fod Duw yn ei alw i Fadagascar, ond eto roedd yn gwybod ei fod yn rhy hen i fynd a bod ganddo gyfrifoldebau yn yr academi.

Trannoeth, rhannodd Phillips ei freuddwyd gyda'i fyfyrwyr. Pan orffennodd, gofynnodd yn syml, 'Pwy a

parhad ar dudalen 2

Rhodd Neuaddlwyd i Fadagascar – parhad



aiff i Fadagascar i bregethu'r efengyl? Ar unwaith, cododd David Jones ar ei draed. Eiliadau'n ddiweddarach, gyda dagrau'n llifo i lawr ei wyneb, safodd Thomas Bevan wrth ei myml.

Cysegregedig

Mae Neuaddlwyd yn parhau i fod yn lle arbennig a chysegredig i Gristnogaeth Malagasy. Roedd comisiynu Jones a Bevan ar 20–21 Awst 1817 yn

ddigwyddiad pwysig i Anghydfurfwyr Cymru ar y pryd gan fod mwy na 5,000 o bobl wedi mynychu'r gwasanaeth. Roedd 5,000 o ddynion a menywod Cymru yn gweddio'n daer dros ddau genhadwr ifanc a'u teuluoedd wrth iddynt baratoi i adael am ynys bell nad oedd llawer o neb wedi clywed amdani, sef Madagascar.

Ymadael

Gadawodd Jones a Bevan Ynysodd

Prydain ar 9 Chwefror 1818 a chyrraedd Mauritius ar 3 Gorffennaf. Teithiasant yn gyntaf i Tamatave (Toamasina) ar arfordir dwyreiniol Madagascar, gan gyrraedd ar 18 Awst. Cawsant eu calonogi gan y croeso cynnes a gawsant, felly, dychwelsant i Fauritius i gasglu eu teuluoedd. Cyraeddasant yn ôl ar wahân, Jones yn gyntaf ym mis Tachwedd, ond bu trychineb; bu farw ei wraig a'i blentyn newydd-anedig o falaria ddiwedd 1818.

Yn gynnar ym 1819, cyrhaeddodd Bevan, Toamasina gyda'i deulu. Yno, fe gafodd y newyddion torcalonnus fod Jones yn wael iawn. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach trawyd teulu Bevan gan falaria. Bu farw ei blentyn ar 20 Ionawr 1819, ef ei hun ar 31 Ionawr, a'i wraig ar 3 Chwefror. Claddwyd y tri yn Toamasina. O fewn tri mis i gyrraedd Madagascar, roedd pump o'r chwech wedi marw, dim ond David Jones a oroesodd.

Cyrhaeddodd y newyddion am y marwolaethau hyn Gymdeithas Genhadol Llundain ym mis Tachwedd 1819. Penodwyd gŵr ifanc o Gymro a astudiai yn Gosport, sef David Griffiths, i gymryd lle Bevan er mwyn iddo gynorthwyo Jones. Cafodd ei neilltuo fel cenhadwr ym mis Gorffennaf 1820, gadawodd Loegr ym mis Hydref, a chyrraeddodd Mauritius ym mis Ionawr 1821.


Bydd ail ran y stori gyffrous hon yn y rhifyn nesaf

Llwybr newydd

A hithau'n fis cyntaf y flwyddyn dyma gyfle i edrych ymlaen. Mae'n demtasiwn o hyd i edrych yn ôl ac yn wir mae llawer i'w ddyysgu a'i werthfawrogi wrth edrych yn ôl. Ond mae edrych yn ôl gan ddifaru yn gallu bod yn brofiad chwerw sy'n medru ein carcharu. Gall neb ddadwneud ddod, ond gallwn wneud rhywbeth am heddiw ac yfory.

Dod i ganol ein byd sy'n llawn llanast wnaeth Iesu a chyhoeddi dechrau newydd a ffordd newydd o fyw. Dod â'n gwahodd i'w ddilyn trwy ffydd. Peidiwn â gadael i fethiant a blinderau ddod ein rhwystro rhag byw heddiw ydy neges Iesu. '...daeth Iesu i Galilea gan gyhoeddi Efengyl Duw a dweud: "Y mae'r amser wedi ei gyflawni ac y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch a chredwch yr Efengyl. ... Dewch ar fy ôl i,"' (Marc 1:14–15,17)

Mae mynd ar ei ôl yn gofyn am ymddiriedaeth ac ufudd-dod. Ond o edrych ar ei fywyd, tystia ei eiriau a'i weithredoedd nad oes angen pryderu. Llwybr da ydy'r llwybr y



mae'n ei gynnig i'w ddilynwyr. Dyma un sy'n llawn gofal am ei bobl wrth iddyn nhw deithio gydag o. Mae ei ffordd yn dangos sut i greu gwell byd wrth blethu cyfiawnder, maddeuant, cymod a chariad. Ffordd ydy hi sy'n dod â ni i berthynas â'r Duw a'n creodd. Heddiw mae miliynau o bobl yn crefu am well byd ar lefel bersonol ac yn genedlaethol. Tystiolaeth dilynwyr Iesu ydy fod ei ffordd yn dda. Gwelwn rym yr efengyl yn y profiadau sy'n cael eu mynegi yn ein hemynau.

Boed i ni gerdded y flwyddyn hon gyda'r unig un all ein harwain yn ddiogel beth bynnag a ddaw i'n rhan. Ymunwn yng ngweddî'r emynydd:

O Arglwydd, dysg im chwilio
I wirioneddau'r Gair
Nes dod o hyd i'r Ceidwad
Fu gynt ar liniau Mair;
Mae ef yn Dduw galluog,
Mae'n gadarn i iacháu
Er cymaint yw fy llygredd
Mae'n ffynnon i'm glanhau.

Y Parchg R. O. Robert
(Allan o Lais Aled, 4 Ionawr 2026)

Cyflwyniad i Sul Cyfiawnder Hiliol,
8 Chwefror 2026

Eto eleni mae Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) wedi paratoi trefn gwasanaeth Cymraeg ar gyfer cynnal Sul i godi ymwybyddiaeth o'r angen am gyfiawnder hiliol yn y gwledydd hyn. Mae modd lawrlwytho'r adnoddau hyn o wefan: [Racial Justice Sunday - 8 February 2026 - CTBI](#)

Cyflwyniad

Yn yr adnoddau hyn rydym yn archwilio beth mae caru ein cymydog yn ei olygu mewn gwirionedd. Byddwn yn ystyried y straeon cyfredol am elyniaeth, ofn, amheuaeth a chasineb at yr 'arall', yn enwedig ceiswyr lloches, ffoaduriaid, ac unrhyw un nad yw'n 'ddigon' Prydeinig neu Wyddelig. Trafodwn sut mae'r Beibl yn cynnwys canllawiau ar gyfer byd lle mae pawb yn perthyn, a lle mae pawb yn cael eu caru, eu gwerthfawrogi a'u derbyn am yr hyn ydynt, ac nid sut maen nhw'n edrych neu beth sydd ganddynt i'w gynnig. Dyma fyd lle ceir ein hunaniaeth yn y pen draw yng Nghrist, fel brodyr a chwiorydd o un 'hil', yr hil ddynol.

Rwy'n credu bod y neges hon 'ar gyfer y math hwn o amser'. Mae'n un sy'n siarad drwy'r baneri, y protestiadau a'r sarhad, gan gyfleu neges o undod a gobaith. Yn union fel mae'r gorchymyn mwyaf yn sôn am garu Duw a charu ein gilydd, mae marwolaeth aberthol Iesu ar y groes yn cynnig i ni oll y gobaith o fod yn unedig â Duw ac â'n gilydd.

Gadewch inni ddefnyddio Sul Cyfiawnder Hiliol (a Suliau eraill) i sefyll gyda'n gilydd mewn cariad, gan wrthod y geiriau, y gweithredoedd ac unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i ddysgeidiaeth Crist, a chofleidio'r egwyddorion Beiblaidd hynny sy'n meithrin undod, cydlynad ac ymgysylltiad.


Rwy'n credu y dylid rhoi (a chadw) rhai pethau yn 'bin sbwriel hanes' wedi'i farcio: 'peidiwch ag agor'. Eto i gyd,

rydym ni nawr yn profi agweddau, ymddygiad ac iaith sydd wedi'u hatgyfodi o gyfnodau fel y 1970au. Prin fod diwrnod yn mynd heibio heb i ryw wleidydd, sylwebydd cyfryngau cymdeithasol neu ymgyrchydd ddefnyddio iaith hiliol ac ymfflamychol i ennyn gelyniaeth tuag at geiswyr lloches, ffoaduriaid, mewnfudwyr a phobl Ddu a Brown.

Ar ben hynny, yn debyg i'r 1970au eto, mae rhai sydd bellach yn honni bod yn rhaid i chi fod yn Wyn er mwyn bod yn 'wirioneddol' Brydeinig neu Wyddelig. Ystyrir y rhai nad ydynt yn perthyn i'r categori hwn yn 'mewnfudwyr' neu'n 'ymfudwyr', p'un a ydynt wedi'u geni yn yr ynysoedd hyn neu wedi byw yma ers degawdau. Yn gysylltiedig â'r syniadau hynny mae'r cysylltiad annymunol a di-sail rhwng 'mewnfudwyr' a throseddau, sy'n awgrymu bod mewnfudwyr yn fwy tueddol o gyflawni troseddau, yn enwedig troseddau o natur dreisgar. Un agwedd allweddol ar y protestiadau asgell dde eithafol, gwrth-noddfa, yw cadw 'menywod a phlant yn ddiogel' rhag ceiswyr lloches gwrywaidd ysglyfaethus.

Yn eironig ddigon, yn ystod y 1970au cafwyd hefyd y gwrth-naratif bod mewnfudo yn ffenomen oedd yn cyfoethogi cymdeithas. Rhoddodd i'r wlad fwy o asedau diwylliannol, cymdeithasol a chrefyddol, amrywiaeth a bri. Heddiw, y naratif parhaus, camarweiniol yw fod mewnfudo (o Dde'r Byd) yn arwain at raniadau cymdeithasol a thensiynau ethnig. Eto i gyd, mae'r Beibl yn dweud wrthym fod ffordd well, un rhagorach fyth, sy'n seiliedig ar gariad a thrugaredd (1 Corinthisiaid 13).

Pan ofynnwyd i Iesu gan athro'r gyfraith, "P'run yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?", atebodd yntau, "Y cyntaf yw, 'Gwranddo, O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, a châr yr Arglwydd dy Dduw



â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain." (Marc 12:28-31)

O ganlyniad, mae Iesu yn galw ar ei ddilynwyr, nid i 'oddef' neu hyd yn oed i 'dderbyn' eu cymdogion, ond i'w caru, waeth sut maen nhw'n edrych neu beth maen nhw'n ei gredu. Nid yw hyn yn hawdd, ond mae'n ofyniad sy'n cael ei fynnu gan bawb sy'n dilyn Gwaredwr a roddodd ei fywyd o gariad dros bawb. Yn fwy na hynny, er ein bod yn aml yn clywed pwy sy'n perthyn i wlad neu deyrnas, neu pwy ddylai gael ei eithrio ohoni, fel Cristnogion, yr unig 'deyrnas' y dylem fod yn canolbwytio arni mewn gwirionedd yw Teyrnas Dduw (Mathew 6:33). Mae hon yn deyrnas sydd wedi'i hadeiladu ar gariad, cyfiawnder, tosturi, trugaredd, gwirionedd, undod a gobaith.

Richard Reddie

Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant
CTBI

Gwahoddiad i ŵyl Gristnogol Llanw, Gwersyll yr Urdd, Llangrannog, 6–10 Ebrill 2026



LLANW 26
DATHLU'R ATGYFODIAD
6ED-10FED O EBRILL
LLANGRANNOG

YMUNWCH Â NI YN 2026!

✉ ymholiadau@llanw.org
 📍 Gwersyll yr Urdd,
 Llangrannog
 🌐 www.llanw.org



Beth yw Llanw?

Mae Gŵyl Llanw yn bodoli ers 2008, pan gasglodd criw bychan o tua 80 o bobl yn Llangrannog i 'Ddathlu'r Atgyfodiad' - nod sy'n parhau hyd heddi. Y bwriad gwreiddiol oedd creu gŵyl a fyddai'n uno Cristnogion o bob cefndir ac enwad i addoli'r Duw Byw ac eistedd o dan ei Air ef. Bu pwyslais ar waith plant ac ieuenctid o'r cychwyn cyntaf, ac ers 2008 mae'r ŵyl wedi teithio Cymru - o Geinewydd i Gricieth, o Ddinbych-y-pysgod i Gydwelli. Ond ers rhai blyneddodd bellach mae wedi dychwelyd i'w chartref cyntaf yn Llangrannog ac wedi tyfu i ddenu yn agos i 400 o bobl!

Beth sy'n digwydd yn ystod y dydd?

Mae gennym ddwy oedfa, bore a nos, sy'n gyfle arbennig i ymgynnull â Christnogion eraill, cymryd rhan mewn addoliad cyfoes a chlywed oddi wrth ein prif siaradwyr wrth iddyn nhw agor y Gair â ni. Eleni rydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrth Rhys Llwyd, Gwilym Jeffs, Lois Franks, Gwynedd Jones, Steffan Morris, Deb Stammers, Anna Huws, Simeon Baker a Jonathan Thomas.

Mae darpariaeth lawn ar gyfer plant ac ieuenctid, gyda'r clybiau plant ar gael i bob plentyn dros 3 blwydd oed. Bydd cyfleusterau *crèche* i'r rheiny sy'n iau na hynny. Yn ogystal â hyn, mae Llanw yn darparu gweinidogaeth ar gyfer plant ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) a'u teuluoedd. Ein nod yw creu gŵyl gyfan gwbl gynhwysol a hygyrch.

Mae'r prynhawniau fel arfer yn cynnwys gwibgartio, sgio, merlota a phob math o weithgareddau, wrth i ni fanteisio ar gyfleusterau gwych Gwersyll yr Urdd. Uchafbwynt arall yw'r bwyd blasus: mae'n ŵyl breswyl lle mae tri phryd bwyd bob dydd yn rhan o'r pris. Gwyliau go iawn! Ydy, mae'n ddiwrnod llawn a phrysur, ond peth gwych am Llanw yw'r cyfle i dreulio amser gyda ffrindiau hen a newydd, cael cyfle i annog a chlywed gan Gristnogion eraill, rhannu beichiau, a mwynhau cymdeithas y saint.

Pwy sy'n mynychu Llanw?

Mae Llanw yn ŵyl gyfan gwbl gydenwadol gyda phwyslais ar Air Duw ac annog Cristnogion. Mae croeso mawr i bawb. Mae'n ŵyl gyfrwng Cymraeg gyda chyfieithu ar y pryd yn y prif oedfaon.

Sut mae archebu lle?

Mae gennym ni dudalen Ticket Tailor lle gallwch archebu tocynnau: <https://buytickets.at/llanw/1921686>

Yn ogystal, mae mwy o wybodaeth ar y wefan (www.llanw.org), ac ar ein tudalennau Facebook ac Instagram. Mae croeso hefyd i chi gysylltu â ni os oes cwestiynau gennych; gallwch wneud hynny drwy ebostio Elain: ymholiadau@llanw.org.

Ystyried dod?

Dwi'n eich annog i ddod i Llanw. Gallwn deimlo'n ynysig ac unig weithiau fel Cristnogion yng Nghymru. Efallai ein bod yn bell (mewn termau daearyddol) oddi wrth ein brodyr a'n chwiorydd yn y ffydd, a gyda'n bywydau prysur heddi mae trefnu i dreulio amser gyda'n gilydd yn gallu teimlo fel tasg amhosib! Mae gallu treulio wythnos yn addoli Duw, myfyrio ar ei Air, cyfarfod â Christnogion eraill, clywed straeon o'r hyn y mae Duw yn ei wneud yn ein gwlad, yn falm i'r enaid ac yn anogaeth werthfawr iawn. Ewch amdani eleni, dewch i Llanw!

Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26

Codi'r Llen 14 – Ymson Naomi

Fel merch ifanc, fe gredwn y byddai llwybr bywyd yn hawdd, ac felly y bu am gyfnod. Cefais ŵr da a llonnwyd ein dyddiau gan ddau fab. Deffrown bob bore yn llawn gobaith a diolchgarwch.

Ond daeth newyn i'n gwlad fel storm annisgwyl. Penderfynodd Elimelech fod angen inni adael a theithio i Moab. Dilynais ef, wrth gwrs, fel gwraig ffyddlon, ond serch hynny roedd pob cam yn boenus. Ro'n i'n perthyn i fy mhobl, f'ardal, fy nghymdeithas, a'r peth olaf a ddymunwn oedd y rhwyg hwn yn ein teulu.

Ar ôl inni gyrraedd Moab, dechreuodd fy meibion gynefino, ac ymhen hir a hwyr roeddynt ill dau wedi priodi. Hoffais y ddwy wraig newydd, Orpa a Ruth, o'r dechrau. Roeddem yn ailblannu ein gwreiddiau fel teulu; roedd Duw yn gwenu arnom a breuddwydiwn y byddai pob yfory'n parhau'n braf. Ond byr fu'r cyfnod o freuddwydio, a daeth newid i'm rhan. Bu farw fy ngŵr annwyl. Cefais flas ar beth oedd chwerwder bod yn wraig weddw. Yna cipiwyd fy meibion oddi arnaf hefyd.

Cefais fy newid gan alar deublyg. Allwn i ddim credu mewn dim mwyach. Yr un pryd, clywais fod y newyn yn ôl gartref wedi dod i ben, ac addewais i mi fy hun y byddwn yn dychwelyd yno. Doedd dim i'm cadw yn y lle dieithr hwn, dim ond beddau oer ac atgofion hiraethus. Gwnes fy ngorau glas i berswadio Orpa a Ruth i aros, a pheidio dychwelyd gyda mi. Roedd y ddwy yn ifanc a phosibiliadau o'u blaen yn ogystal â'r gallu i ddechrau o'r newydd. Torrodd Orpa i lawr i grio wrth imi ffarwelio â nhw ac arhosodd yno. Mynnodd Ruth ddod gyda mi. Dewisodd alw fy mhobl i yn bobl iddi hi, a'm Duw i yn Dduw iddi hithau. Roedd ei ffyddlondeb yn ddisymud ac fel lamp yn nhywyllwch yfory.

Wedi imi ddychwelyd i Fethlehem, yn naturiol cefais f'adnabod a'm croesawu 'nôl, ond prin yr oeddwn yn f'adnabod fy hun. Roedd bywyd wedi fy newid a penderfynais y dylwn newid fy enw o Naomi, sef llawenydd, i Mara, sef chwerwder. Ro'n i'n bendant fy meddwl bod Duw wedi gwneud cam â mi.

Eto, roedd yn rhaid cario 'mlaen orau y gallwn. Aeth Ruth i weithio i'r caeau er mwyn inni'n dwy allu byw. Gwyliwn hi'n gadael ben bore ac yn cyrraedd adref bob nos wedi llwyr ymlâd. Sylwais ar ei charedigrwydd a sylweddoli bod cyfeillgarwch yn beth mor werthfawr. Sylwodd rhywun arall ar y rhuddin yn ei chymeriad

ac ar ei phrydferthwch, sef Boas. Roedd yn perthyn i fy ngŵr, ond roedd hawl ganddo, yn ôl cyfraith ein gwlad, i gyfeillachu â Ruth. Ceisiais ei harwain a gweddïais y byddai'n hapus.

Profodd Boas ei fod yn berson caredig a thyner, ac fe'n cymerodd ein dwy dan ei adain. Ganwyd mab i Boas a Ruth, sef Obed, ac wrth ei gofleidio yn fy mreichiau toddodd y chwerwder ynof. Cefais gân newydd a symud o'r trymder i lawenydd unwaith eto. Dysgais fod ffydd yn gallu tyfu o gael ei ddyfrhau gan ddagrau o bob math. Adfywiais wedi profi chwerthin y dechrau newydd a theimlwn yr ysgafnder yn fy nwydroed unwaith eto.

Wrth edrych yn ôl, gallaf weld bod ystyr i'r llwybr na fedrwn ei ddeall wrth ei droedio. Roedd Duw yn fy nghyfeirio, er na allwn weld hynny ar y pryd. Cefais fy siapio gan golled, ond cefais fy nghario gan gariad. Oherwydd ymlyniad Ruth a gofal rhagluniaethol Duw, profais agosatrwydd yn fy nghynhesu o'r newydd.

Os gallwch ddysgu unrhyw beth oddi wrthyf, cofiwch fod modd i galon wag gael ei llenwi eto, a bod gras dwyfol yn ehangach nag unrhyw orwel pell a welwn ni.

Holi

- Sut mae gonestrwydd Naomi, yn ei galar a'i chwerwder, yn gymorth i ni ddeall rôl gonestrwydd emosiynol o fewn cyddestun ein heglwysi lleol ni? A beth allwn ni ei ddysgu o'r modd y mae hi'n rhannu'n agored yn hytrach na chuddio'i hemosiynau?
- Sut mae arweiniad a doethineb Naomi yn dylanwadu ar ddyfodol Ruth? Allwn ni ddatblygu system fentora rhwng y cenedlaethau (o ran oedran) yn ein cylchoedd ni a thrwy hynny fod yn fodd i arwain ein hieuenctid (a vice versa, efallai!) mewn ffyrdd newydd?
- Dengys stori Naomi fod Duw yn gweithio drwy ffyddlondeb a chyfeillgarwch. Oes modd i'r rhinweddau hyn fod o gymorth inni fynegi ein ffydd i eraill drwy fywyd o gariad (Galatiaid 5:6)?

Gweddi

O Dduw, erfyniwn hyn:

Cyflyra ni i fywyd o ffyddlondeb tuag at ein hanwyliaid.

Cymell ni i arddel y rhinweddau gorau.

Cyfeiria ni i ddatblygu ein mynegiant o'th gariad.

Cynghora ni fel ein bod yn gwybod dy ddymuniad.

Cysegra ni er mwyn inni wneuthur wrth dy fodd. Amen.

Siân Meinir

S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol Sul, 1 Chwefror, am 7:30yh – Yr Emyr: Hen a Newydd Bydd Lowri Morgan yn cloriannu emynau traddodiadol a chyfoes yng nghwmni'r cerddorion Meinir Richards a Christopher Davies. Mae ein treftadaeth o emyn-donau yn drysor. Ond ydyn ni mor barod i werthfawogi emynau cyfoes? Chwarter canrif ers cyhoeddi <i>Caneuon Ffydd</i>, tybed sut fydd ein canu mawl yn datblygu yn y ganrif sydd i ddod? Daw'r emynau o Gapel Heol Awst, Caerfyrddin, a chawn fwynhau perfformiad gan Gôr Seingar.	BBC radio cymru Caniadaeth y Cysegr Sul, 1 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Anna Jane Evans Oedfa Radio Cymru Sul, 1 Chwefror, am 12:00yp Oedfa dan arweiniad Siân Howley, Casnewydd
--	---

Eco Eglwys Pum Peth Personol

Rydym wedi clywed yn nau rifyn diwethaf *Y Tyst* ynglŷn â'n cyfrifoldeb i wneud penderfyniadau 'gofalgar' a bwriadus yn ein bywyd bob dydd, a hynny fel rhan o ymgyrch 'Pum Peth Personol' yr Annibynwyr. Rwy'n sobr o falch fod yr ymgyrch yma yn rhedeg drwy 2026, ac felly, drosodd i chi! Tybed sut fyddwch yn ymateb a pha newidiadau fydd yn dod i'r golwg?

Mae yna hefyd gyfle i wneud gwahaniaeth yn eich penderfyniadau a dewisiadau ar y cyd fel eglwys, ochr yn ochr â'r rhai unigol, a hynny drwy gofrestru gyda rhaglen Eco Church – sef un o brif brosiectau A Rocha UK. Mae A Rocha UK yn elusen gadwraethol, Gristnogol sy'n 'Diogelu byd natur, gofalu am ddaear Duw.'

Mae Eco Eglwys yn rhaglen eciwmenaidd (ac yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeg oed eleni) sy'n helpu eglwysi i gysylltu materion amgylcheddol gyda'u ffydd a'u cenhadaeth Gristnogol, gyda'r gobaith wedyn o ymateb trwy weithredu'n ymarferol yn yr eglwys, ym mywydau pobl, ac yn y gymuned leol a byd-eang. Ei bwriad yw i gyfarparu eglwysi i weithredu mewn modd ymarferol, dylanwadol, ac â gwir effaith,



PUM PETH PERSONOL

fel rhan o'u cenhadaeth.

Wrth wraidd Eco Eglwys mae'r arolwg ar lein gyda phum adran yn ymwneud â holl ystod bywyd eglwysig: Addoli ac Addysgu, Adeiladau ac Ynni, Tir a Byd Natur, Ymgysylltiad Cymunedol a Byd-eang a Ffordd o Fyw. Trwy ateb cwestiynau, byddwch yn ennill pwyntiau sy'n mynd tuag at wobwr efydd, arian neu aur! Rhai yn bethau syml – ydyn ni'n clodfori Duw am y cread yn rheolaidd yn ein gwasanaethau? Ydyn ni wedi newid y bylbiau golau? Ydyn ni wedi gosod bocs nythu adar tu allan, ydyn ni wedi newid ein gwin cymuned i fod yn organig a blodau y capel i fod yn rhai tymhorol a lleol? Ydyn ni'n rhan o sesiwn codi sbwriel leol? Mae eraill wrth gwrs, yn fwy o sialens, OND yn aml y rhai gyda'r effaith fwyaf. Allwn ni newid ein banc i un fwy moesol? A yw'n gwaith gyda phlant, pobl ifanc yn cynnwys gofal am y cread? Allwn ni fesur ôl troed carbon ein heglwys? Ydy'n hadeilad wedi ei insiwleiddio gymaint â phosib? Allwn ni ymwneud ag ymgyrchoedd a chysylltu â'n gwleidyddion ar faterion amgylcheddol?

Adnoddau

Ar ein gwefan (ecochurch.arocha.org.uk) mae yna storïau i'ch ysbrydoli, a map i weld pwy sy' eisoes yn gweithredu. Hefyd

mae yno adnoddau lu i'ch cefnogi ar bopeth, o sut i ddenu bywyd gwyllt i'ch tir a sut i fynd ati i fod yn fwy effeithlon gydag ynni; i gyfathrebu gyda'ch aelodau am faterion amgylcheddol; pwysigrwydd ymwybyddiaeth o effaith ein patrymau prynu fel eglwysi a llawer, llawer mwy.

Rhannu straeon a phrofiadau

Ni allaf orbwysleisio'r pwysigrwydd o rannu straeon mysg eich gilydd, er mwyn ysbrydoli, cefnogi a helpu rhannu'r dasg. Beth am i chi ddod at eich gilydd mewn ardal i weld sut allwch chi gydweithio? Rwy'n gwybod bod nifer o eglwysi yn ymwneud â'r materion yma yn barod; mae yna brosiectau ailddefnydd, gerddi cymunedol, newidiadau i systemau gwresogi a goleuo a mwy, i gyd yn cymryd lle yn eich plith eisoes!

Mae dros 620 o gapeli ac eglwysi Cymru yn rhan o'r cynllun, gyda dros 70 wedi derbyn gwobr arian, a naw bellach, wedi cyrraedd y brig gyda gwobr aur. Felly os ydych chi ddfiri' ynglŷn â stiwardio ac adfer y cread – er budd y cenedlaethau nesa' ac i fod yn ffyddlon i'ch ffydd a'ch galwad Gristnogol – beth am ymuno gyda ni y flwyddyn yma? Rwy'n edrych ymlaen yn fawr i glywed straeon oddi wrthoch chi ac i weld ymateb ffyddlon a bwriadus gan eglwysi'r Annibynwyr! A ydych chi'n barod i dderbyn yr her?

Delyth Higgins

Swyddog Eco Eglwys Cymru,
A Rocha UK

Gwahoddiad i Encil

Dydd Mercher, Ebrill 22 – Dydd Iau, Ebrill 23
Yng Ngwesty Radison RED, Lerpwl

Eleni, mae Encil y Gweinidogion yn ymweld â dinas Lerpwl, a chareu eich gwahoddi i ymuno â ni ar gyfer yr ail gymal.

Gofynnir am gyfraniad o £50 y person, a hynny'n cynnwys popeth a nodir yn yr amserlen isod.

Sylwch y bydd angen i bawb drefnu eu llety eu hunain.

I dderbyn y pecyn gwylbodaeth, ac i gofrestru, cysylltwch â:
carwyn@annibynwyr.cymru



Nos Fercher, Ebrill 22

17:15 Swper yng ngwesty Radison RED, Lerpwl
19:30 Darlith goffa Dr Pennar Davies a Dr Tudur Jones.
'Eglwys Rydd y Cymry' gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur

Dydd Iau, Ebrill 23

09:00 Defosiwn a Seminar yn trafod agweddau o'r Ddarlith Goffa
10:15 Cenhadaeth yr eglwys mewn cymuned aml-ffydd.
Tystiolaeth eglwys Lerpwl.
11:00 Defosiwn i glori'r encil dan arweiniad y Parchedig Owain Llŷr
11:30 Cinio ac ymadael



BUGEILIO'N GILYDD

'Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braidd' (Actau 20:28)

Ydych chi'n angerddol dros estyn gofal a chariad?
Ydych chi'n teimlo galwad i estyn gofal bugeiliol?
Ydych chi awydd dysgu mwy am fugeilio'n gilydd?

Dyma wahoddiad i chi ddilyn y modiwl 'Bugeilio'n Gilydd'.

Nos Lun, Chwefror 2, 9, 23, Mawrth 2, 9, 16, 23 a 30
7:00 – 8:30 o'r gloch ar Zoom,
dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall.

Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru: carwyn@annibynwyr.cymru


Croeso cynnes i bawb



Golygyddol

Y person dwyfol hwn

Un o'r penodau mwyaf cyfarwydd, a waeth i mi gyfaddef, un o'm hoff benodau i, ydi'r bedwaredd bennod ar ddeg o Efengyl Ioan. Yn y chweched a'r seithfed adnod wedi i Thomas ofyn '... sut y gallwn wybod y ffordd?' mae Iesu yn ateb: 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi. Os ydych wedi f'adnabod i, byddwch yn adnabod y Tad hefyd. Os ydych wedi f'adnabod i, byddwch yn adnabod y Tad hefyd. Yn wir, yr ydych bellach yn ei adnabod ef ac wedi ei weld ef.' Mi fydddech chi'n tybio y byddai hynny'n ddigon o abwyd i ddisgybl arall, sef Philip, i weld bod ateb Iesu'n ddigonol i Thomas ac yntau, a phawb arall, ond na, oherwydd gofyn Philip wedyn i Iesu: 'Arglwydd, dangos i ni y Tad, a bydd hynny'n ddigon inni.' Wel nefi blw, fel rydan ni'n ei ddweud yma, dyma brofi amynedd Iesu i'w ben draw pan mae'n ateb Philip eto: 'A wyf wedi bod gyda chwi cyhyd heb i ti f'adnabod. Philip? Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad.' (adnodau 8 a 9). Problem Thomas a Philip oedd methu gweld bod Duw wedi dod i'r byd ym mherson Iesu, a bod edrych ar Iesu yn gyfystyr â gweld Duw'r Tad. A'i roi o mewn iaith ddiwinyddol – i weld Duw'r Tad, edrycher ar Dduw'r Mab.



'Mawr yw Ef...'

Am bwy mae Titus Lewis yn ei emyn cyfarwydd yn sôn? Ai am Dduw'r Tad neu Dduw'r Mab? Yr ateb yn syml ydi Duw'r Mab. Gadewch i ni edrych am

eiliad ar Dduw'r Mab – ar Iesu Grist, neu ar Iesu y Crist.

Ro'n i'n arwain gwasanaeth ar Sul olaf 2025 yng nghapel Seion, Llanrwst. Rydw i'n arfer mynd i Seion bob hyn a hyn, ac mi anghofiais yn llwyr cyn mynd yno y tro diwetha' eu bod fel cynulleidfa'n darllen/adrodd y Gyffes Fer o Ffydd wedi canu'r emyn cyntaf. A dyna'n union ddigwyddodd y bore hwnnw. Wedi dod at ail ran y credo, dyma edrych o ddifrif arni a gweld bod y gyffes hon, er mai un wedi'i thalfyrru ydi hi, yn hynod o gyfoethog, ac yn gwneud i ni i gyd sylweddoli pa mor fawr ydi'n Harglwydd Iesu Grist: 'Credwn yn Iesu Grist, ei unig-anedig Fab, ein Harglwydd a'n Gwaredw'r. Trwy ei fywyd, ei farwolaeth ar y groes a'i atgyfodiad, gorchfygodd bechod ac angau gan faddau i ni ein pechodau a'n cymodi â Duw...' Gwych! Faint sy'n credu hynna ...?

Sawl Iesu

Mae 'na fwy nag un Iwan Llewelyn Jones siŵr o fod, ond rydw i'n gwybod am ddau, oherwydd mae'r ddau ohonom wedi cael ein cymysgu ar hyd y blynyddoedd, a chan bod y ddau ohonom yn ymddiddori mewn cerddoriaeth, mae'r cymysgu'n fwy! Prysuraf i ddweud bod yr 'Iwan arall', os ca' i ei alw o'n hynny am eiliad, wedi gwneud llawer iawn mwy o'i gerddoriaeth nac y gwnes i a dod yn un o banyddion gorau'r byd. Ond dychmygwch y dryswch pan oedd y ddau ohonom ar un cyfnod yn yr un ysgol uwchradd yn Amlwch!

Mi roedd 'na sawl Iesu yng nghyfnod y Testament Newydd, oherwydd ei fod yn enw cyfarwydd yn deillio o'r enw Joshua, a'r ystyr ydi 'Duw yn achub'. Ond rhowch chi y gair 'Crist' ar ei ôl, sydd â'r ystyr 'Meseia,' neu 'Anfonedig' ('Christos' yn yr iaith Roeg), fedrwc chi ddim llai na sylwi bod Iesu Grist yn berson aruthrol.

'O f'enaid, gwêl addasrwydd y person dwyfol hwn'

Dyna ddywedodd Ann Griffiths. Oherwydd pwy yw Iesu, mae'n Un sy'n gyfoes ac yn newydd, ac fel y dywedodd rhywun, bod y rhyddhad yn Iesu Grist, y rhyddhad personol a'r rhyddhad ar gyfer y byd, oherwydd hwn sydd wedi dod i 'gymodi'r byd ag ef ei hun...' Mae Iesu Grist yn gyfoes heb unrhyw ymdrech o'n rhan ni.

Cwestiwn

Ar sail y bennod hon a geiriau'r Iesu'n dweud 'Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad,' beth wnewch chi o bennill olaf emyn rhif 222 yn *Caneuon Ffydd*?

Gair gan Aled

Ennyd ar ddechrau blwyddyn

Mae 'na weddi mewn lleoliad,
mae 'na ddiolch;
ma 'na ennyd
pan ydym mewn cysylltiad
â'r Mwy na ni ein hunain
yn harddwch tirwedd bro,
yn nhonnau'r môr,
ym mharabl afon.
Ymddatodwn
rhagom ni ein hunain a'n problemau
a derbyn
mai clai ydym yn Dy ddwylo.
Ymryddhawn
ennyd
o'n cnawd,
yng ngofal y bythol Un.

Aled Lewis Evans.

Bendith o Iona Ionawr

Mewn hapusrwydd a galar,
mewn cynnydd a cholled
mewn tristwch a gobaieth
mewn angau a bywyd –
yr Un Cyson
sy'n dal i alw fy enw.
Amen.

Dangnefeddwr Grist

Dangnefeddwr Grist,
tyrd i fyw gyda ni.
Cerdda yn ein strydoedd,
a byw yn ein cartrefi,
fel bod bob wyneb a welwn
yn cael ei nabod fel dy wyneb Di,
a phob bywyd a gyffyrddwn
yn cael eu cydnabod fel dy Gorff Di
ar y ddacar.
O gael trem arnat, a dy gyffyrddiad,
boed i ni adnabod Heddwch.

(addasiad o eiriau

Janet Lees o Ynys Iona)

(Allan o *Shalom* Capel y Groes ac
Ebeneser, Wrecsam, Rhif 515
Ionawr a Chwefror 2026.)

Tyrd atom ni, O Dad ein
Harglwydd Iesu
l'n harwain ato ef;
Canmolwn fyth yr hwn sydd yn
gwaredu –
Bendigaid Fab y Nef.

Chwithig braidd yn nhrefn yr adnabod
yn dydi? Onid y Mab sy'n arwain at y
Tad?

Iwan Llewelyn Jones

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**Y Parchg Ddr Alun Tudur**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS**Ffôn: 02920 490582****E-bost: tyst@annibynwyr.cymru****Golygyddion****Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com**Alun Lenny**
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:****Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru**Dalier Sylw!**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.**WRTH Y LLYW #9**

Llanfaches: crud Anghydfurfiaeth Cymru, a dechrau Rhagfyr 2025 cynhaliwyd yr oedfa olaf yn y Tabernacl, Llanfaches. Trefnwyd diwrnod i gofio a dathlu gan y Parchg Gwilym Wyn Roberts a mawr ein diolch iddo. Creodd y diwrnod hwnnw yn y capel bach destlus a glanwaith, sydd ger yr hen ffordd o Gasnewydd i Gas-gwent argraff fawr arnaf; neu ... yn nes at y gwir, bu treulio diwrnod yng nghwmni ffyddloniaid Tabernacl Llanfaches yn fendith fawr i mi. Gwnes nodyn sydyn o sylw gan Eirlys ac un arall gan Jinny. Eu sylwadau hwythau fydd echel 'Wrth y Llyw' y tro hwn. Eirlys i ddechrau: 'We did all that we could.' Does dim amheuaeth fod hynny'n wir am ffyddloniaid Tabernacl, Llanfaches fel mae hynny'n wir am ffyddloniaid dygn, dewr cymaint o eglwysi ledled Cymru. Ni ddylid gwneud yn fach o'r dycnwch hwn. Yn *A Son at the Front* gan Edith Wharton – nofel yn ymdrin ag erchylltra'r Rhyfel Byd Cyntaf trwy gyfrwng colled a galar un teulu – mae un o'r prif



gymeriadau – y fam – yn mynnu bod modd gwneud gwahaniaeth mewn bywyd. Mae hi'n mynegi'r peth yn gryno mewn cymal syml: 'One can at least contribute an attitude.' Agwedd bywiol, hyderus a chadarnhaol. Ie, mymryn o ffydd, tamaid o obaith, gronyn o gariad. Y cyfan mor fach, mor bitw bach. Mor fach? Mor enfawr o fawr! Beth ellid ei wneud wyneb yn wyneb â phoen a thor calon y byd: *contribute an attitude*. Beth ellid ei wneud â'n capeli'n cau? *Contribute an attitude*: agwedd gadarnhaol, obeithiol, cariadlawn. Roedd y brenin, mae'n debyg, am ddewis olynydd o blith ei dri mab, a hynny yn ôl eu dyfeisgarwch. Y dasg a roddodd iddynt oedd llenwi ystafell wag. Prynodd un mab lwyth o wellt a llenwi'r ystafell i'r nenfwd. Gydag amser aeth y llwyth yn llai. Prynodd yr ail fab lwyth o bridd, ond gostwng yn raddol fu hanes hwnnw hefyd. Prynodd y trydydd, am ychydig geiniogau,

gannwyll a llenwi'r stafell â goleuni, drachefn a thrachefn, trosodd a thro. Codwn ein calonnau. Nid oes disgwyl i Gristnogion digalon allu cyflawni fawr o ddim. Colli hyder yw'r golled drymaff.

Ymlaen at Jinny. Stori oedd ganddi am berchennog y ganolfan arddio leol. Pan glywodd hwnnw fod y capel yn cau, daeth â choeden Nadolig i'r Tabernacl. Nid oedd wedi croesi rhiniog y lle ers blyneddoddd lawer, ond cafodd fagwraeth iach a chynhaliol yno ac roedd am ddatgan ei ddiolch. Beth oedd sylw Jinny felly? 'People don't forget.' Maya Angelou sydd piau'r geiriau: 'People will forget what you said, people will forget what you did, but people will never forget how you made them feel.' Po hira' dw i'n sefyll 'Wrth y Llyw', mwyaf i gyd dw i'n sylweddoli mai ofer ein pregethu, ein hymweld, ein pwyllgora, ein strategaethau, ein gwefannau – a hyd yn oed ein symud o X i *Insta* – os na fydd ein pobl: ffyddloniaid dygn dewr eu gweinidogaeth a'i gwasanaeth yn ymdeimlo â gwres ein gwerthfawrogiad didwyll ac angenrheidiol.

A dw i'n gorffen gyda sylw'n codi gan y capel ei hun: yr enw 'Tabernacl' – pabell y cyfarfod. Pethau dros-dro yn unig yw pebyll. Mae Salm 84 yn agor: 'Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd!' Mae'r Salmydd yn gweld adeilad sylweddol, ei seiliau'n gadarn, ei goed yn gedrwydd Libanus, a'i furiau'n gerrig dethol i gyd, ond er waethaf hynny – oherwydd hynny – mae'r Salmydd yn mynnu cadw'i olwg ar y deml gynfas symudol yn yr anialwch gynt. Dyna'r darlun y mae am gadw, cerrig a chedrwydd Libanus neu beidio. Nid oes berygl, felly i'r deml gymryd lle Duw yng nghalon hwn. Roedd dewis yr enw 'Tabernacl' i'r capel yn Llanfaches yn ddewis da, a phroffwydol – pabell frau dros amser yw'r adeilad cadarnaf a godwn; cyfrwng dros dro, at y pwrpas. Mae'r adeilad yn cau; ydy ond mae'r anialwch yn parhau, ac o'r herwydd erys y bererindod, erys yr angen i ddiolch i, a dilyn ôl traed y sawl sy'n dilyn eu bugail drwy'u hoes, er amarch a gw'radwydd nid dim ond y byd, ond hefyd, weithiau, er mawr siom yr union bobl a sefydliadau a ddylai yn anad neb arall eu dathlu a'u gwerthfawrogi.

Owain Llŷr Evans